# Y Gân o Gariad

## Llythyr Bugeiliol at yr holl Ffyddloniaid

Ar gyfer yr Wythnos Fawr 2020

Rwyf eisoes yn teimlo'n siomedig fod y cyfyngiadau symud yn golygu y bydd dathliadau'r Pasg, Brenhines y Gwyliau, yn dawelach yr wythnos hon. Ar yr union adeg pan fyddwn ni'n paratoi ar gyfer y seremonïau teimladol Ewcharist y Crism a Noswyl y Pasg, heb sôn am Ddydd Gwener y Groglith, rwy'n sylweddoli fod angen gweinidogaethu i deulu sydd ar wasgar, a hynny pan mae'r dyfodol yn fwy aneglur nag erioed o'r blaen. Ar yr un pryd, rwy'n cael y fraint a'r cyfle anferth, gyda chymorth cydweithwyr, o siarad gyda phob un ohonoch trwy recordiad o'r litwrgiau (gweler https://dioceseofstasaph.org.uk/coronavirus/digital-prayer-and-worship/worship-from-esgobty/ ), er mwyn i'r gwasanaethau fod ar gael ar gyfer y Triduum – tri diwrnod mawr litwrgi'r Dioddefaint), a hefyd trwy'r llythyr bugeiliol hwn, gyda'r cyfle i gyhoeddi Newyddion Da ein Hiachawdwriaeth yng Nghrist Iesu.

Un o fy holl emynau yw "My Song is Love Unknown" gan Samuel Crossman, cyfansoddwyd ym 1664.

My song is Love unknown,
My Saviour's Love to me,
Love to the loveless shown,
that they might lovely be,
O, who am I, that for my sake,
My Lord should take frail flesh, and die?

Mae'n bosibl dweud fod y tri diwrnod sydd ar ddod yn dysgu popeth y dylem ni wybod am Gariad. Yfory yw Dydd Iau Cablyd, pan fyddwn ni'n cofio'r "Mandatwm", gorchymyn Iesu: "Carwch eich gilydd fel y cerais i chwi." Dangosodd y cariad hwnnw'n symbolaidd drwy olchi traed y disgyblion yn y Swper Olaf. Fe, a oedd yn Rabbi ac yn Feistr, yn talu sylw i anghenion mwyaf sylfaenol ei ddisgyblion wrth ofalu amdanyn nhw yn eu blinder a'u budreddi. *Natur Cariad* yw gofalu am anghenion yr anwylyd. Mae cariad yn fwy nag emosiwn, mae'n weithred o ewyllys, gweithred sy'n "anwylo".

Ar Ddydd Gwener Duw rydym yn gweld *pris cariad* - mae Duw yn rhoi ei hunan yn llwyr dros boen a phechod y byd. Mae yna fersiynau o'r ffydd Cristnogol sy'n llwyddo, rywsut, i wneud i Dduw edrych yn sadydd – y tad dialgar, yn benderfynol o beri poen i rywun, unrhyw un er mwyn talu'r pris am bechod – ond gadewch i ni gofio, yn y ffydd Gristnogol, mai Duw ei hun, wedi'i ymgnawdoli yng Nghrist, sy'n cael ei groeshoelio: Mae Duw ei hunan yn cymryd arno'i hun y boen, y brifo, y pris am bechod. Waeth pa mor annioddefol yw baich y byd toriedig, mae Duw yn ei gymryd ar ei ysgwyddau ei hun. "Mae wedi maddau pechodau pob un ohonoch: Mae Crist wedi difa'n llwyr y dystiolaeth ddamniol, y cyfreithiau a'r gorchmynion sydd wedi'u torri ac a oedd yn hongian dros ein pennau, ac mae wedi'u dileu'n gyfan gwbl drwy ei hoelio dros ei ben ei hunan ar y groes." (*Colossiaid 2.13-15, Cyfieithiad o gyfieithiad Philip)*

Ar noswyl y Pasg, ychydig cyn Sul y Pasg, rydym yn gweld ***gwobr Cariad**,* sef Bywyd newydd. "Ond i Dduw y bo'r diolch, yr hwn sy'n rhoi'r fuddugoliaeth i ni trwy ein Harglwydd Iesu Grist."

*(1 Corinthians 15.57)* Mae'n amhosibl i dywyllwch, pechod, marwolaeth a drygioni gadw Duw i lawr, ac mae Crist wedi codi o farw'n fyw, y cyntafanedig ymhlith brodyr lawer *(Rhufeiniaid 8.29)*, oherwydd mae ei gariad wedi dangos i ni "mor hawddgar y gallwn ni fod." Mae cariad Duw yn ail greu'r bydysawd ac rydym ninau'n cael gwahoddiad i'r parti ar ddiwedd amser.

Bod yn Gristion yw ein gosod ni'n hunain yn gadarn o dan faner Cariad: derbyn beth mae cariad Duw wedi'i wneud i ni yng Nghrist ac i ddod yn ffrydiau o'r cariad hwnnw yn y byd. Rydym ni'n cael ein galw i garu'n afradlon oherwydd bod Duw wedi ein caru ni. "Yn hyn y mae cariad: nid ein bod ni'n caru Duw, ond ei fod ef wedi ein caru ni, ac anfon ei Fab i fod yn foddion ein puredigaeth oddi wrth ein pechodau." *(1 Ioan 4.10)* "Gyfeillion annwyl, gadewch i ni garu ein gilydd, oherwydd o Dduw y mae cariad." *1 Ioan 4.7:*

Efallai na fyddwn ni'n gallu cyfarfod ein gilydd yn gyhoeddus nac yn gorfforol yn ystod y dyddiau i ddod, ond rwy'n eich annog i wneud y daith o gariad gyda'ch gilydd, yn ysbrydol – yn gwybod, wrth i chi fynd ar y daith honno, fod Teulu Asaph hefyd yn teithio gyda chi ar yr union un ffordd, yn union yr un pryd. Wrth i ni fyfyrio ar barodrwydd Iesu i roi'i ddillad ar naill ochr a gwisgo gwisg caethwas i olchi traed ei ddisgyblion, gadewch i ni ymrwymo i wasanaethu'r Brenin Tlawd. Wrth i ni ganfod ffordd i archwilio trallod y Groes, gadewch i ni benderfynu, yn wyneb ofn neu anhawster, ddefnyddio a chael ein defnyddio yn enw cariad Duw dros y byd. Yn y tywyllwch sydd wedi troi'n oleuni'r Pasg, gadewch i ni godi i fywyd ac ymrwymiad newydd fel dilynwyr yr Arglwydd. A gadewch i ni wybod y gallwn ni wneud y pethau hyn oherwydd mae'n rhoi'r gras i ni fel y gallai hyn fod: "Yr wyf yn sicr o hyn yma, y bydd i'r hwn a ddechreuodd waith da ynoch ei gwblhau." *(Philipiaid 1.6)*

My song is Love unknown,
My Saviour's Love to me,
Love to the loveless shown,
that they might lovely be,
O, who am I, that for my sake,
My Lord should take frail flesh, and die.

Dywedodd y wraig y tu ôl i gownter y siop wrthyf yr wythnos o'r blaen (dydw i ddim wedi bod allan yn ddiweddar): "Beth alla i wneud i chi, del?" Dywedodd y peth mor ddidaro, ac eto 'del' Duw ydw i, rydych chi''n 'ddel' i Dduw, mae pawb ohonom yn 'ddel' Duw. Nid oherwydd ein bod ni'n 'ddel' ynom ni ein hunain, a allai fod braidd yn anodd ei ganfod, ond oherwydd, yng Nghrist, mae pwy a beth ydym ni'n etifeddiaeth sicr. "Ni arbedodd Duw ei Fab ei hun, ond ei draddodi i farwolaeth trosom ni oll. Ac os rhoddodd ei Fab, sut y gall beidio â rhoi pob peth i ni gydag ef?" (Rhufeiniaid 8.32)

Gyda phob bendith dros y Triduum a'r Pasg,

